

RHESTR O WELLIANNAU WEDI'U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) Public Health (Wales) Bill

Mae'r gwelliannau â * ar eu pwys yn rhai newydd neu'n rhai sydd wedi'u haddasu
Amendments marked * are new or have been altered

Mae gwelliannau a nodir ag 'R' yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant
cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu
17 wrth gyflwyno'r gwelliant.

Amendments marked 'R' mean that the Member has declared either a registrable interest
under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling
the amendment.

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn—
The Bill will be considered in the following order—

Sections 2 to 39	Adrannau 2 i 39
Schedule 1	Atodlen 1
Schedule 2	Atodlen 2
Sections 40 to 44	Adrannau 40 i 44
Sections 46 to 77	Adrannau 46 i 77
Schedule 3	Atodlen 3
Section 45	Adran 45
Sections 78 to 95	Adrannau 78 i 95
Schedule 4	Atodlen 4
Sections 96 to 102	Adrannau 96 i 102
Section 1	Adran 1
Long title	Teitl hir



Kirsty Williams

4

Gyda chefnogaeth / Supported by: Darren Millar

Section 2, page 2, line 28, leave out subsections (2) to (3).

Adran 2, tudalen 2, llinell 32, hepgorer is-adrannau (2) hyd at (3).

Mark Drakeford

145

Section 2, page 2, line 28, leave out 'are to a device enabling the inhalation of nicotine via a mouth piece (whether or not the device also enables any other substance to be inhaled)' and insert '(or "NID") are to a device designed or adapted for the purpose of inhaling nicotine via a mouth piece (whether or not it is also designed or adapted for other purposes)'.

Adran 2, tudalen 2, llinell 32, hepgorer 'yn gyfeiriadau at ddyfais sy'n galluogi i nicotin gael ei fewnanadlu drwy getyn ceg (pa un a yw'r ddyfais hefyd yn galluogi i unrhyw sylwedd arall gael ei fewnanadlu' a mewnosoder '(neu "DMN") yn gyfeiriadau at ddyfais sydd wedi ei dylunio neu ei haddasu at ddiben mewnanadlu nicotin drwy getyn ceg (pa un a yw hefyd wedi ei dylunio neu ai haddasu at ddibenion eraill'.

Mark Drakeford

146

Section 2, page 2, line 31, leave out 'intended to be used for the consumption of lit tobacco' and insert 'being used for smoking'.

Adran 2, tudalen 2, llinell 36, hepgorer 'y bwriedir ei defnyddio i gymryd tybaco sydd wedi ei danio' a mewnosoder 'sy'n cael ei defnyddio i ysmegu'.

Mark Drakeford

147

Section 2, page 3, line 2, after 'vapour', insert 'or aerosol'.

Adran 2, tudalen 3, llinell 2, ar ôl 'anwedd', mewnosoder 'neu erisol'.

Kirsty Williams

5

Gyda chefnogaeth / Supported by: Darren Millar

Page 3, line 4, leave out section 3.

Tudalen 3, llinell 4, hepgorer adran 3.



Mark Drakeford

148

Section 3, page 3, line 4, leave out 'enabling the inhalation of a substance, or descriptions of such devices, to which this Chapter is to apply' and insert –

' , or descriptions of devices, to which this Chapter is to apply.

- () Regulations under subsection (1) may only specify devices, or descriptions of devices, that enable the inhalation of a substance.
- () The regulations may make different provision in respect of different substances or descriptions of substances'.

Adran 3, tudalen 3, llinell 4, hepgorer 'sy'n galluogi i sylwedd gael ei fewnanadlu, neu ddisgrifiadau o'r dyfeisiau hynny, y mae'r Bennod hon i fod yn gymwys iddynt' a mewnosoder –
' , neu ddisgrifiadau o ddyfeisiau, y mae'r Bennod hon i fod yn gymwys iddynt.

- () Ni chaiff rheoliadau o dan is-adran (1) ond pennu dyfeisiau neu ddisgrifiadau o ddyfeisiau sy'n galluogi i sylwedd gael ei fewnanadlu.
- () Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth wahanol mewn cysylltiad â sylweddau gwahanol neu ddisgrifiadau gwahanol o sylweddau'.

Kirsty Williams

6

Gyda chefnogaeth / Supported by: Darren Millar

Section 4, page 3, line 21, leave out subsection (2).

Adran 4, tudalen 3, llinell 22, hepgorer is-adran (2).

Darren Millar

134

Section 4, page 3, after line 23, insert –

- '() But subsection (2)(a) does not apply to areas and grounds listed in section [section to be inserted by amendment 137](2).'

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 25, mewnosoder –

- '() Ond nid yw is-adran (2)(a) yn gymwys i'r mannau a'r tiroedd a restrir yn adran [yr adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 137](2).'

Mark Drakeford

149

Page 3, after line 34, insert a new section –

[] Offence of using a nicotine inhaling device in NID-free premises or vehicle

- (1) A person commits an offence if the person uses a nicotine inhaling device –
 - (a) in NID-free premises;
 - (b) in a NID-free vehicle.
- (2) For provision about NID-free premises, see section [section to be inserted by amendment 154].



- (3) For provision about NID-free vehicles, see sections [section to be inserted by amendment 156] and [section to be inserted by amendment 157].
- (4) It is a defence for a person charged with an offence under this section to show that the person did not know, and could not reasonably have been expected to know, that the premises or vehicle concerned were NID-free premises or a NID-free vehicle.
- (5) If a person charged with an offence under this section relies on the defence in subsection (4), and evidence is adduced which is sufficient to raise an issue with respect to that defence, the court must assume that the defence is satisfied unless the prosecution proves beyond reasonable doubt that it is not.
- (6) A person guilty of an offence under this section is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 1 on the standard scale.'

Tudalen 3, ar ôl llinell 37, mewnosoder adran newydd—

[] Y drosedd o ddefnyddio dyfais mewnanadlu nicotin mewn mangre ddi-DMN neu gerbyd di-DMN

- (1) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'r person yn defnyddio dyfais mewnanadlu nicotin—
 - (a) mewn mangre ddi-DMN;
 - (b) mewn cerbyd di-DMN.
- (2) Am ddarpariaeth ynghylch mangreoedd di-DMN, gweler adran [yr adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 154].
- (3) Am ddarpariaeth ynghylch cerbydau di-DMN, gweler adrannau [yr adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 156] ac [yr adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 157].
- (4) Mae'n amddiffyniad i berson sydd wedi ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon ddangos nad oedd y person yn gwybod, ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo wybod, fod y fangre neu'r cerbyd o dan sylw yn fangre ddi-DMN neu'n gerbyd di-DMN.
- (5) Os yw person sydd wedi ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon yn dibynnu ar yr amddiffyniad yn is-adran (4), ac y dygir tystiolaeth sy'n ddigonol i godi mater mewn cysylltiad â'r amddiffyniad hwnnw, rhaid i'r llys gymryd bod yr amddiffyniad wedi ei fodloni oni bai bod yr erlyniad yn profi y tu hwnt i amheuaeth resymol nad yw wedi ei fodloni.
- (6) Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 1 ar y raddfa safonol.'

Darren Millar

135

Section 5, page 4, line 4, leave out 'or 7 (premises that are open to the public)' and insert ', section 7 (premises that are open to the public) or section [section to be inserted by amendment 137] (children's play areas, hospital grounds and school grounds: restriction on smoking only)'



Adran 5, tudalen 4, llinell 4, hepgorer 'neu 7 (mangreoedd sydd ar agor i'r cyhoedd)' a mewnosoder ', adran 7 (mangreoedd sydd ar agor i'r cyhoedd) neu adran [*yr adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 137*] (mannau chwarae plant, tir ysbytai a thir ysgolion: cyfyngiad ar ysmegu yn unig)'.

Kirsty Williams

7

Gyda chefnogaeth / Supported by: Darren Millar

Section 5, page 4, leave out lines 6 to 7.

Adran 5, tudalen 4, hepgorer llinellau 7 hyd at 8.

Darren Millar

136

Section 5, page 4, after line 7, insert—

'() But subsection 1(b) does not apply to areas and grounds listed in section [*section to be inserted by amendment 137*](2).'

Adran 5, tudalen 4, ar ôl llinell 8, mewnosoder—

'() Ond nid yw is-adran (1)(b) yn gymwys i'r manau a'r tiroedd a restrir yn adran [*yr adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 137*](2).'

Kirsty Williams

8

Gyda chefnogaeth / Supported by: Darren Millar

Section 5, page 4, line 8, leave out '(1)(a) or (b)' and insert '(1)'.

Adran 5, tudalen 4, llinell 9, hepgorer '(1)(a) neu (b)' a mewnosoder '(1)'.

Kirsty Williams

9

Gyda chefnogaeth / Supported by: Darren Millar

Section 5, page 4, line 13, leave out '(1)(a) or (b)' and insert '(1)'.

Adran 5, tudalen 4, llinell 14, hepgorer '(1)(a) neu (b)' a mewnosoder '(1)'.

Kirsty Williams

10

Gyda chefnogaeth / Supported by: Darren Millar

Section 5, page 4, line 17, leave out 'or using a nicotine inhaling device'.

Adran 5, tudalen 4, llinell 19, hepgorer 'neu'n defnyddio dyfais mewnanadlu nicotin'.



Mark Drakeford

150

Page 4, after line 23, insert a new section –

[] Offence of failing to prevent use of a nicotine inhaling device in NID-free premises

- (1) A person who controls or is concerned in the management of premises which are NID-free by virtue of section [section to be inserted by amendment 154] must take reasonable steps to cause a person using a nicotine inhaling device there to stop using the device.
- (2) Regulations may provide for a duty corresponding to that mentioned in subsection (1) to be imposed, in relation to vehicles which are NID-free by virtue of section [section to be inserted by amendment 156] or treated as NID-free by virtue of section [section to be inserted by amendment 157], on a person, or description of person, specified in the regulations.
- (3) A person who fails to comply with the duty in subsection (1), or any corresponding duty in regulations under subsection (2), commits an offence.
- (4) It is a defence for a person (“D”) charged with an offence under this section to show that D did not know, and could not reasonably have been expected to know, that the person in question was using a nicotine inhaling device.
- (5) If a person charged with an offence under this section relies on the defence in subsection (4), and evidence is adduced which is sufficient to raise an issue with respect to that defence, the court must assume that the defence is satisfied unless the prosecution proves beyond reasonable doubt that it is not.
- (6) A person guilty of an offence under this section is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.’.

Tudalen 4, ar ôl llinell 26, mewnosoder adran newydd –

[] Y drosedd o fethu ag atal y defnydd o ddyfais mewnanadlu nicotin mewn mangre ddi-DMN

- (1) Rhaid i berson a chanddo reolaeth dros fangre sy’n ddi-DMN neu sy’n ymwneud â rheoli mangre sy’n ddi-DMN yn rhinwedd adran [yr adran sy’n cael ei mewnosod gan welliant 154] gymryd camau rhesymol i beri i berson sy’n defnyddio dyfais mewnanadlu nicotin yno beidio â defnyddio’r ddyfais.
- (2) Caiff rheoliadau ddarparu i ddyletswydd sy’n cyfateb i’r un a grybwyllir yn is-adran (1) gael ei gosod, mewn perthynas â cherbydau sy’n ddi-DMN yn rhinwedd adran [yr adran sy’n cael ei mewnosod gan welliant 156] neu a drinnir fel pe baent yn ddi-DMN yn rhinwedd adran [yr adran sy’n cael ei mewnosod gan welliant 157], ar berson, neu ddisgrifiad o berson, a bennir yn y rheoliadau.
- (3) Mae person sy’n methu â chydymffurfio â’r ddyletswydd yn is-adran (1), neu unrhyw ddyletswydd gyfatebol mewn rheoliadau o dan is-adran (2), yn cyflawni trosedd.
- (4) Mae’n amddiffyniad i berson (“A”) sydd wedi ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon ddangos nad oedd A yn gwybod, ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo wybod, fod y person o dan sylw yn defnyddio dyfais mewnanadlu nicotin.



- (5) Os yw person sydd wedi ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon yn dibynnu ar yr amddiffyniad yn is-adran (4), ac y dygir tystiolaeth sy'n ddigonol i godi mater mewn cysylltiad â'r amddiffyniad hwnnw, rhaid i'r llys gymryd bod yr amddiffyniad wedi ei fodloni oni bai bod yr erlyniad yn profi y tu hwnt i amheuaeth resymol nad yw wedi ei fodloni.
- (6) Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.'

Mark Drakeford

151

Section 6, page 5, line 7, leave out subsection (7).

Adran 6, tudalen 5, llinell 7, hepgorer is-adran (7).

WITHDRAWN/TYNNWYD YN ÔL

Mark Drakeford

17

Section 6, page 5, line 7, leave out 'section 7 (premises that are open to the public) what "enclosed" and "' and insert 'sections 7 to 9 what "enclosed", "substantially enclosed" and "not enclosed or'.

Adran 6, tudalen 5, llinell 7, hepgorer 'adran 7 (mangreuedd sydd ar agor i'r cyhoedd) ystyr "caeedig" a "' a mewnosoder 'adrannau 7 i 9 ystyr "caeedig", "sylweddol gaeedig" ac "nad ydynt yn gaeedig nac yn'.

Darren Millar

137

Page 5, after line 21, insert a new section –

[] Children's play areas, hospital grounds and school grounds: restriction on smoking only

- (1) So far as they are not smoke-free by virtue of section 6 (workplaces) or section 7 (premises that are open to the public), the areas and grounds listed in subsection (2) are smoke free in relation to smoking only.
- (2) The areas and grounds are –
 - (a) children's play areas,
 - (b) hospital grounds, and
 - (c) school grounds,in Wales.
- (3) The areas and grounds are smoke-free in relation to smoking all the time.
- (4) In this section –
 - (a) "children's play areas" means areas where play facilities are made available for children and which are open to the public;



- (b) "hospital grounds" means the grounds of a hospital (and "hospital" includes a hospital within the meaning of section 206(1) of the National Health Service (Wales) Act 2006 (c.42) and an independent hospital within the meaning of section 2 of the Care Standards Act 2000 (c.14));
 - (c) "school grounds" means the grounds of a school (and "school" includes any relevant place within the meaning of sections 1(4)(a) to (i) of the Learner Travel (Wales) Measure 2008 (nawm 2)).
- (5) For the purposes of subsection (4)(a), a children's play area is open to the public if the public or a section of the public has access to it, whether by invitation or not, and whether on payment or not.
- (6) See section 10 for exemptions.'

Tudalen 5, ar ôl llinell 22, mewnosoder adran newydd—

[] Mannau chwarae plant, tir ysbytai a thir ysgolion: cyfyngiad ar ysmegu yn unig

- (1) I'r graddau nad ydynt yn ddi-fwg yn rhinwedd adran 6 (gweithleoedd) neu adran 7 (mangreoedd sydd ar agor i'r cyhoedd), mae'r manau a'r tiroedd a restrir yn is-adran (2) yn ddi-fwg mewn perthynas ag ysmegu yn unig.
- (2) Y manau a'r tiroedd yw—
- (a) manau chwarae plant,
 - (b) tir ysbytai, ac
 - (c) tir ysgolion,
- yng Nghymru.
- (3) Mae'r manau a'r tiroedd yn ddi-fwg mewn perthynas ag ysmegu drwy'r amser.
- (4) Yn yr adran hon—
- (a) ystyr "manau chwarae plant" yw manau ble mae cyfleusterau chwarae ar gael i plant ac sydd ar agor i'r cyhoedd;
 - (b) ystyr "tir ysbytai" yw tir ysbyty (ac mae "ysbyty" yn cynnwys ysbyty o fewn ystyr adran 206(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42) ac ysbyty annibynnol o fewn ystyr adran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p.14));
 - (c) ystyr "tir ysgolion" yw tir ysgol (ac mae "ysgol" yn cynnwys unrhyw fan perthnasol o fewn ystyr adrannau 1(4)(a) hyd at (i) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (mccc 2)).
- (5) At ddibenion is-adran (4)(a), mae man chwarae plant yn agored i'r cyhoedd os oes gan y cyhoedd neu garfan o'r cyhoedd fynediad iddo, pa un ai drwy wahoddiad ai peidio, a pha un a delir am fynediad ai peidio.
- (6) Gweler adran 10 am esemptiadau.'



Darren Millar

138

Section 8, page 5, line 24, leave out 'or 7 (premises that are open to the public)' and insert ', section 7 (premises that are open to the public) or section [section to be inserted by amendment 137] (children's play areas, hospital grounds and school grounds: restriction on smoking only)'.

Adran 8, tudalen 5, llinell 25, hepgorer 'neu 7 (mangreoedd sydd ar agor i'r cyhoedd)' a mewnosoder ', adran 7 (mangreoedd sydd ar agor i'r cyhoedd) neu adran [yr adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 137] (mannau chwarae plant, tir ysbytai a thir ysgolion: cyfyngiad ar ysmegu yn unig)'.

Mark Drakeford

18

Section 8, page 6, line 1, leave out 'conditions requiring the person in charge of the place, or place falling within the description, to designate' and insert –

'specified conditions to be satisfied in order for an exemption to apply.

- () The conditions that may be specified under subsection (5) may include a condition that the person in charge of the place, or place falling within the description, has designated'.

Adran 8, tudalen 6, llinell 2, hepgorer 'sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person a chanddo ofal am y man, neu am fan sy'n dod o fewn y disgrifiad, ddynodi' a mewnosoder –

'penodedig i gael eu bodloni er mwyn i esemptiad fod yn gymwys.

- () Caiff yr amodau y caniateir iddynt gael eu pennu o dan is-adran (5) gynnwys amod bod y person a chanddo ofal am y man, neu am fan sy'n dod o fewn y disgrifiad, wedi dynodi'.

Kirsty Williams

11

Gyda chefnogaeth / Supported by: Darren Millar

Section 8, page 6, line 3, leave out 'or using a nicotine inhaling device'.

Adran 8, tudalen 6, llinell 4, hepgorer 'neu ddefnyddio dyfais mewnanadlu nicotin'.

Mark Drakeford

19

Section 8, page 6, line 5, leave out subsection (6).

Adran 8, tudalen 6, llinell 5, hepgorer is-adran (6).



Mark Drakeford

20

Page 6, after line 7, insert a new section –

[] Further provision about additional smoke-free premises: dwellings

- (1) Regulations under section 8 that provide for premises used as a dwelling that are not smoke-free by virtue of section 6 or 7 to be treated as smoke-free premises for the purposes of this Chapter must comply with this section.
- (2) The regulations may only make provision in relation to those areas of such premises that are not enclosed or substantially enclosed.
- (3) The regulations may not provide for those areas to be treated as smoke-free premises unless –
 - (a) they are workplaces (within the meaning of section 6(2)), or
 - (b) they are open to the public (within the meaning of section 7(2)).
- (4) The regulations must provide that –
 - (a) those areas are to be treated as smoke-free premises only when –
 - (i) they are used as a place of work or open to the public, and
 - (ii) a person aged under 18 is present, and
 - (b) if only part of an area is used as a place of work or is open to the public, the area is to be treated as smoke-free only to that extent, and only if a person under 18 is present in that part.’.

Tudalen 6, ar ôl llinell 6, mewnosoder adran newydd –

[] Darpariaeth bellach ynghylch mangreoedd di-fwg ychwanegol: anheddau

- (1) Rhaid i reoliadau o dan adran 8 sy'n darparu i fangre a ddefnyddir fel annedd nad yw'n ddi-fwg yn rhinwedd adran 6 neu 7 gael ei thrin fel mangre ddi-fwg at ddibenion y Bennod hon gydymffurfio â'r adran hon.
- (2) Dim ond mewn perthynas â'r ardaloedd hynny o fangreoedd o'r fath nad ydynt yn gaeedig nac yn sylweddol gaeedig y caiff y rheoliadau wneud darpariaeth.
- (3) Ni chaiff y rheoliadau ddarparu i'r ardaloedd hynny gael eu trin fel mangreoedd di-fwg oni bai –
 - (a) eu bod yn weithleoedd (o fewn ystyr adran 6(2)), neu
 - (b) eu bod ar agor i'r cyhoedd (o fewn ystyr adran 7(2)).
- (4) Rhaid i'r rheoliadau ddarparu –
 - (a) nad yw'r ardaloedd hynny i gael eu trin fel mangreoedd di-fwg ond –
 - (i) pan y'u defnyddir fel man gwaith neu pan ydynt ar agor i'r cyhoedd, a
 - (ii) pan yw person o dan 18 oed yn bresennol, a
 - (b) os dim ond rhan o ardal a ddefnyddir fel man gwaith neu sydd ar agor i'r cyhoedd, mai dim ond i'r graddau hynny y mae'r ardal i gael ei thrin fel pe bai'n ddi-fwg, a dim ond os yw person o dan 18 oed yn bresennol yn y rhan honno.’.



Mark Drakeford 152

Section 9, page 6, line 22, leave out subsection (4).
Adran 9, tudalen 6, llinell 21, hepgorer is-adran (4).

Mark Drakeford 153

Section 9, page 6, line 24, leave out 'But'.
Adran 9, tudalen 6, llinell 23, hepgorer 'Ond'.

Darren Millar 139

Section 10, page 6, line 33, leave out 'or 7 (premises that are open to the public)' and insert '
section 7 (premises that are open to the public) or section [*section to be inserted by amendment 137*]
(children's play areas, hospital grounds and school grounds: restriction on smoking only)'.
Adran 10, tudalen 6, llinell 32, hepgorer 'neu 7 (mangreoedd sydd ar agor i'r cyhoedd)' a
mewnosoder '*adran 7 (mangreoedd sydd ar agor i'r cyhoedd) neu adran [yr adran sy'n cael ei
mewnosod gan welliant 137] (mannau chwarae plant, tir ysbytai a thir ysgolion: cyfyngiad ar
ysmygu yn unig)*'.

Mark Drakeford 21

Section 10, page 7, line 8, leave out 'specified under subsection (3)(c) may include conditions
requiring the person in charge of the premises to designate' and insert 'that may be specified
under subsection (3)(c) may include a condition that the person in charge of the premises has
designated'.
Adran 10, tudalen 7, llinell 8, hepgorer 'a bennir o dan is-adran (3)(c) gynnwys amodau sy'n ei
gwneud yn ofynnol i'r person a chanddo ofal am y fangre ddynodi' a mewnosoder 'y caniateir
iddynt gael eu pennu o dan is-adran (3)(c) gynnwys amod bod y person a chanddo ofal am fangre
wedi dynodi'.

Kirsty Williams 12

Gyda chefnogaeth / Supported by: Darren Millar

Section 10, page 7, line 10, leave out 'or using a nicotine inhaling device'.
Adran 10, tudalen 7, llinell 10, hepgorer 'neu ddefnyddio dyfais mewnanadlu nicotin'.

Kirsty Williams 13

Gyda chefnogaeth / Supported by: Darren Millar

Section 10, page 7, line 11, leave out subsections (5) to (6).
Adran 10, tudalen 7, llinell 12, hepgorer is-adrannau (5) hyd at (6).



Mark Drakeford

154

Page 7, after line 18, insert a new section –

'NID-free premises

[] NID-free premises

- (1) Schedule [*Schedule to be inserted by amendment 221*] makes provision about NID-free premises.
- (2) Premises in Wales listed in Part 1 of Schedule [*Schedule to be inserted by amendment 221*] are NID-free for the purposes of this Chapter to the extent mentioned in that Part (but see subsection (4)).
- (3) So far as they are not NID-free by virtue of subsection (2), premises in Wales listed in Part 2 of Schedule [*Schedule to be inserted by amendment 221*] are NID-free for the purposes of this Chapter to the extent mentioned in that Part (but see subsection (4)).
- (4) So far as premises listed in Part 1 or Part 2 of Schedule [*Schedule to be inserted by amendment 221*] come within Part 3 of that Schedule, the premises are not NID-free for the purposes of this Chapter.
- (5) Regulations may amend Schedule [*Schedule to be inserted by amendment 221*] by –
 - (a) adding premises to Part 1, Part 2 or Part 3 of the Schedule;
 - (b) removing premises from Part 1, Part 2 or Part 3 of the Schedule;
 - (c) varying a description of premises in Part 1, Part 2 or Part 3 of the Schedule.
- (6) But premises are not to be added to Part 1 or Part 2 of Schedule [*Schedule to be inserted by amendment 221*] by regulations under subsection (5) unless –
 - (a) the premises in question are smoke-free premises by virtue of section 6 (workplaces) or 7 (premises that are open to the public), or are treated as smoke-free premises by virtue of section 8, and
 - (b) the Welsh Ministers are satisfied that adding the premises in question to the Part concerned is likely to contribute towards the promotion of the health of the people of Wales.'



Tudalen 7, ar ôl llinell 20, mewnosoder adran newydd –

'Mangreoedd di-DMN

[] Mangreoedd di-DMN

- (1) Mae Atodlen [yr Atodlen sy'n cael ei mewnosod gan welliant 221] yn gwneud darpariaeth ynghylch mangreoedd di-DMN.
- (2) Mae mangre yng Nghymru a restrir yn Rhan 1 o Atodlen [yr Atodlen sy'n cael ei mewnosod gan welliant 221] yn ddi-DMN at ddibenion y Bennod hon i'r graddau a grybwyllir yn y Rhan honno (ond gweler is-adran (4)).
- (3) I'r graddau nad yw'n ddi-DMN yn rhinwedd is-adran (2), mae mangre yng Nghymru a restrir yn Rhan 2 o Atodlen [yr Atodlen sy'n cael ei mewnosod gan welliant 221] yn ddi-DMN at ddibenion y Bennod hon i'r graddau a grybwyllir yn y Rhan honno (ond gweler is-adran (4)).
- (4) I'r graddau y mae mangreoedd a restrir yn Rhan 1 neu Ran 2 o Atodlen [yr Atodlen sy'n cael ei mewnosod gan welliant 221] yn dod o fewn Rhan 3 o'r Atodlen honno, nid yw'r fangre yn ddi-DMN at ddibenion y Bennod hon.
- (5) Caiff rheoliadau ddiwygio Atodlen [yr Atodlen sy'n cael ei mewnosod gan welliant 221] drwy –
 - (a) ychwanegu mangre at Ran 1, Rhan 2 neu Ran 3 o'r Atodlen;
 - (b) dileu mangre oddi ar Ran 1, Rhan 2 neu Ran 3 o'r Atodlen;
 - (c) amrywio disgrifiad o fangre yn Rhan 1, Rhan 2 neu Ran 3 o'r Atodlen.
- (6) Ond nid yw mangre i gael ei hychwanegu at Ran 1 neu Ran 2 o Atodlen [yr Atodlen sy'n cael ei mewnosod gan welliant 221] drwy reoliadau o dan is-adran (5) oni bai –
 - (a) bod y fangre o dan sylw yn fangre ddi-fwg yn rhinwedd adran 6 (gweithleoedd) neu 7 (mangreoedd sydd ar agor i'r cyhoedd), neu i gael ei thrin fel mangre ddi-fwg yn rhinwedd adran 8, a
 - (b) bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod ychwanegu'r fangre o dan sylw at y Rhan o dan sylw yn debygol o gyfrannu at hybu iechyd pobl Cymru.'.



Mark Drakeford

221

Page 56, after line 34, insert a new Schedule –

‘SCHEDULE []

(introduced by section [section to be inserted by amendment 154])

NID-FREE PREMISES

PART 1

NID-FREE PREMISES: DESIGNATION NOT PERMISSIBLE

Childcare

- 1 (1) Premises at which childcare is provided, other than premises within sub-paragraph (2).
- (2) Premises within this sub-paragraph are –
 - (a) premises at which a residential family centre service within the meaning of paragraph 3 of Schedule 1 to the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (anaw 2) is provided;
 - (b) premises consisting of a hospital;
 - (c) premises consisting of youth detention accommodation.
- 2 (1) If only part of the premises is used for the purpose of providing childcare, the premises are NID-free only to that extent.
- (2) The premises are NID-free only when being used for the purpose of providing childcare, and in the case of premises used as a dwelling only when the childcare is provided there by a person in return for payment of money.
- (3) The premises are NID-free only in those areas that are enclosed or substantially enclosed.

Educational institutions

- 3 Premises consisting of a school or a further education institution.
- 4 (1) The premises are NID-free only when being used for the purpose of providing education.
- (2) The premises are NID-free only in those areas that are enclosed or substantially enclosed.

Food establishments

- 5 (1) Premises consisting of food business establishments that –
 - (a) are required to be registered under Article 6 of Regulation (EC) No 852/2004, and
 - (b) supply food direct to consumers,other than a food business establishment within sub-paragraph (2).
- (2) A food business establishment is within this sub-paragraph if the establishment consists of premises within section 145(4) of the Licensing Act 2003 (c.17) (premises from which unaccompanied children are prohibited).



- 6 (1) The premises are NID-free only when open to the public and only in those areas that are open to the public.
(2) The premises are NID-free only in those areas that are enclosed or substantially enclosed.

Public transport facilities

- 7 Premises consisting of –
(a) train stations;
(b) bus stations;
(c) bus shelters;
(d) ticket offices, waiting rooms and terminal buildings connected with vehicles within section [section to be inserted by amendment 156](2).
- 8 (1) The premises are NID-free only when open to the public and only in those areas that are open to the public.
(2) The premises are NID-free only in those areas that are enclosed or substantially enclosed.

PART 2

NID-FREE PREMISES: DESIGNATION PERMISSIBLE

Hospitals etc

- 9 Premises consisting of hospitals.
- 10 (1) The premises are NID-free only in those parts that are either or both –
(a) open to the public;
(b) used for the purpose of providing care to patients.
(2) The premises are NID-free only in those areas that are enclosed or substantially enclosed.

PART 3

GENERAL EXEMPTIONS

- 11 Premises consisting of adult hospices.
- 12 Premises consisting of adult care homes.
- 13 (1) Premises used as a dwelling.
(2) But if used for the provision of childcare by a person in return for payment of money, the premises are not to be treated as a dwelling for the purpose of this paragraph in those parts or at those times they are so used.

PART 4

INTERPRETATION OF SCHEDULE

- 14 (1) In this Schedule –



“adult care home” (*“cartref gofal i oedolion”*) means premises at which a care home service within the meaning given by paragraph 1 of Schedule 1 to the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (anaw 2) is provided to persons aged 18 or over;

“adult hospice” (*“hosbis i oedolion”*) means an establishment the primary function of which is the provision of palliative care to persons aged 18 or over who are suffering from a progressive disease in its final stages;

“childcare” (*“gofal plant”*) means (subject to sub-paragraph (2)) any form of care for a child, other than care provided for a child by a parent, relative or foster parent of the child; and includes –

- (a) education for a child, and
- (b) any other supervised activity for a child;

“further education institution” (*“sefydliad addysg bellach”*) means an institution within the further education sector (within the meaning given by section 91 of the Further and Higher Education Act 1992 (c.13));

“hospital” (*“ysbyty”*) has the meaning given by section 206 of the National Health Service (Wales) Act 2006 (c.42);

“parent” (*“rhiant”*) includes any person who has parental responsibility (within the meaning of section 3 of the Children Act 1989 (c.41)) for a child;

“registered pupil” (*“disgybl cofrestredig”*) has the meaning given by section 434(5) of the Education Act 1996 (c.56);

“relative” (*“perthynas”*), in relation to a child, means a step-parent, grandparent, aunt, uncle, brother or sister (including any person who is in that relationship by virtue of a marriage or civil partnership or an enduring family relationship);

“youth detention accommodation” (*“llety cadw ieuenctid”*) means –

- (a) a secure accommodation service (within the meaning given by paragraph 2 of Schedule 1 to the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (anaw 2));
- (b) a secure training centre;
- (c) a secure college;
- (d) a young offender institution;
- (e) accommodation provided, equipped and maintained by the Welsh Ministers under section 82(5) of the Children Act 1989 (c.41) for the purpose of restricting the liberty of children;
- (f) accommodation, or accommodation of a description, for the time being specified by order under section 107(1)(e) of the Powers of Criminal Courts (Sentencing) Act 2000 (c.6) (youth detention accommodation for purposes of detention and training orders).

(2) References in this Schedule to “childcare” do not include –

- (a) education (or any other supervised activity) provided by a school during school hours for a registered pupil, or



- (b) any form of health care for a child.
- (3) For the purposes of sub-paragraph (1) a person is a foster parent in relation to a child if the person –
 - (a) is a local authority foster parent (within the meaning given by section 197 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (anaw 4)), or
 - (b) fosters the child privately.’.

Tudalen 56, ar ôl llinell 37, mewnosoder Atodlen newydd –

‘ATODLEN []

(a gyflwynir gan adran [yr adran sy’n cael ei mewnosod gan welliant 154])

MANGREOEDD DI-DMN

RHAN 1

MANGREOEDD DI-DMN: NI CHANIATEIR EU DYNODI

Gofal plant

- 1 (1) Mangre lle y darperir gofal plant, ac eithrio mangreoedd o fewn is-baragraff (2).
- (2) Y mangreoedd o fewn yr is-baragraff hwn yw –
 - (a) mangre lle y darperir gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd o fewn ystyr paragraff 3 o Atodlen 1 i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2);
 - (b) mangre sy’n ysbyty;
 - (c) mangre sy’n llety cadw ieuenctid.
- 2 (1) Os dim ond rhan o’r fangre sy’n cael ei defnyddio at ddiben darparu gofal plant, dim ond i’r graddau hynny y mae’r fangre yn ddi-DMN.
- (2) Dim ond pan yw mangre yn cael ei defnyddio at ddiben darparu gofal plant, ac yn achos mangre sy’n cael ei defnyddio fel annedd, dim ond pan ddarperir y gofal plant yno gan berson yn gyfnewid am daliad o arian, y mae’r fangre yn ddi-DMN.
- (3) Dim ond yn yr ardaloedd hynny sy’n gaeedig neu’n sylweddol gaeedig y mae’r fangre yn ddi-DMN.

Sefydliadau addysgol

- 3 Mangre sy’n ysgol neu’n sefydliad addysg bellach.
- 4 (1) Dim ond pan yw mangre yn cael ei defnyddio at ddiben darparu addysg y mae’r fangre yn ddi-DMN.
- (2) Dim ond yn yr ardaloedd hynny sy’n gaeedig neu’n sylweddol gaeedig y mae’r fangre yn ddi-DMN.

Sefydliadau bwyd

- 5 (1) Mangreoedd sy’n sefydliadau busnes bwyd –



- (a) y mae'n ofynnol iddynt fod yn gofrestredig o dan Erthygl 6 o Reoliad (EC) Rhif 852/2004, a
 - (b) sy'n cyflenwi bwyd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr, ac eithrio sefydliad busnes bwyd o fewn is-baragraff (2).
- (2) Mae sefydliad busnes bwyd o fewn yr is-baragraff hwn os yw'r sefydliad yn fangre sy'n dod o fewn adran 145(4) o Ddeddf Trwyddedu 2003 (p.17) (mangreoedd y mae plant sydd ar eu pennau eu hunain wedi eu gwahardd rhag mynd iddynt).
- 6 (1) Dim ond pan yw mangre ar agor i'r cyhoedd a dim ond yn yr ardaloedd hynny sydd ar agor i'r cyhoedd y mae'r fangre yn ddi-DMN.
- (2) Dim ond yn yr ardaloedd hynny sy'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig y mae'r fangre yn ddi-DMN.

Cyfleusterau trafniadaeth gyhoeddus

- 7 Mangreoedd sy'n—
- (a) gorsafoedd trenau;
 - (b) gorsafoedd bysiau;
 - (c) arosfannau bysiau;
 - (d) swyddfeydd tocynnau, ystafelloedd aros a therfynfeydd sy'n gysylltiedig â cherbydau o fewn adran [yr adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 156](2).
- 8 (1) Dim ond pan yw mangreoedd ar agor i'r cyhoedd a dim ond yn yr ardaloedd hynny sydd ar agor i'r cyhoedd y mae'r mangreoedd yn ddi-DMN.
- (2) Dim ond yn yr ardaloedd hynny sy'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig y mae'r fangre yn ddi-DMN.

RHAN 2

MANGREOEDD DI-DMN: CANIATEIR EU DYNODI

Ysbytai etc

- 9 Mangreoedd sy'n ysbytai.
- 10 (1) Dim ond pan fo naill ai paragraff (a) neu baragraff (b) yn gymwys, neu pan fo'r ddau baragraff yn gymwys, y mae'r mangreoedd yn ddi-DMN—
- (a) maent ar agor i'r cyhoedd;
 - (b) maent yn cael eu defnyddio at ddiben darparu gofal i gleifion.
- (2) Dim ond yn yr ardaloedd hynny sy'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig y mae'r fangre yn ddi-DMN.

RHAN 3

ESEMPTIADAU CYFFREDINOL

- 11 Mangreoedd sy'n hosbisau i oedolion.



- 12 Mangreoedd sy'n gartrefi gofal i oedolion.
- 13 (1) Mangre sy'n cael ei defnyddio fel annedd.
- (2) Ond os y'i defnyddir i ddarparu gofal plant gan berson yn gyfnewid am daliad o arian, nid yw'r fangre i gael ei thrin fel annedd at ddiben y paragraff hwn yn y rhannau hynny neu ar yr adegau hynny y'i defnyddir felly.

RHAN 4

DEHONGLI'R ATODLEN

- 14 (1) Yn yr Atodlen hon—

ystyr “cartref gofal i oedolion” (“*adult care home*”) yw mangre lle y darperir gwasanaeth cartref gofal o fewn yr ystyr a roddir gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2) i bersonau sy'n 18 oed neu'n hŷn;

mae i “disgybl cofrestredig” yr ystyr a roddir i “registered pupil” gan adran 434(5) o Ddeddf Addysg 1996 (p.56);

ystyr “gofal plant” (“*childcare*”) (yn ddarostyngedig i is-baragraff (2)) yw unrhyw ffurf ar ofal ar gyfer plentyn, ac eithrio gofal a ddarperir ar gyfer plentyn gan riant, perthynas neu riant maeth y plentyn; ac mae'n cynnwys—

- (a) addysg ar gyfer plentyn, a
- (b) unrhyw weithgaredd arall o dan oruchwyliaeth ar gyfer plentyn;

ystyr “hosbis i oedolion” (“*adult hospice*”) yw sefydliad â'i brif swyddogaeth yw darparu gofal lliniarol i bersonau sy'n 18 oed neu'n hŷn sy'n dioddef o glefyd sy'n gwaethygu ac sydd yn ei gyfnodau olaf;

ystyr “llety cadw ieuentid” (“*youth detention accommodation*”) yw—

- (a) gwasanaeth llety diogel (o fewn yr ystyr a roddir gan baragraff 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2));
- (b) canolfan hyfforddi ddiogel;
- (c) coleg diogel;
- (d) sefydliad troseddwy'r ifanc;
- (e) llety sy'n cael ei ddarparu, ei gyfarparu a'i gynnal gan Weinidogion Cymru o dan adran 82(5) o Ddeddf Plant 1989 (p.41) at ddiben cyfyngu ar ryddid plant;
- (f) llety, neu lety o ddisgrifiad, a bennir am y tro drwy orchymyn o dan adran 107(1)(e) o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 (p.6) (llety cadw ieuentid at ddibenion gorchmynion cadw a hyfforddi);

ystyr “perthynas” (“*relative*”), mewn perthynas â phlentyn, yw llys-riant, mam-gu/nain, tad-cu/taid, modryb, ewythr, brawd neu chwaer (gan gynnwys unrhyw berson sydd yn y berthynas honno yn rhinwedd priodas neu bartneriaeth sifil neu berthynas deuluol barhaus);



mae "rhiant" ("parent") yn cynnwys unrhyw berson a chanddo gyfrifoldeb rhiant (o fewn yr ystyr a roddir i "parental responsibility" yn adran 3 o Ddeddf Plant 1989 (p.41)) dros blentyn;

ystyr "sefydliad addysg bellach" ("further education institution") yw sefydliad o fewn y sector addysg bellach (o fewn yr ystyr a roddir i "further education sector" gan adran 91 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p.13));

mae i "ysbyty" yr ystyr a roddir i "hospital" gan adran 206 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42).

- (2) Nid yw cyfeiriadau yn yr Atodlen hon at "gofal plant" yn cynnwys –
- (a) addysg (neu unrhyw weithgaredd arall o dan oruchwyliaeth) a ddarperir gan ysgol yn ystod oriau ysgol ar gyfer disgybl cofrestredig, neu
 - (b) unrhyw ffurf ar ofal iechyd ar gyfer plentyn.
- (3) At ddibenion is-baragraff (1) mae person yn rhiant maeth mewn perthynas â phlentyn os yw'r person –
- (a) yn rhiant maeth awdurdod lleol (o fewn yr ystyr a roddir gan adran 197 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4)), neu
 - (b) yn maethu'r plentyn yn breifat.'.

Mark Drakeford

155

Page 7, after line 18, insert a new section –

[] NID-free premises: designation of premises in Part 2 of Schedule [Schedule to be inserted by amendment 221]

- (1) The person in charge of premises listed in Part 2 of Schedule [Schedule to be inserted by amendment 221] may designate any room or area in the premises as being a room or area in which the use of a nicotine inhaling device is to be permitted, and to that extent the premises are to be treated as not being NID-free for the purposes of this Chapter.
- (2) Regulations may make provision –
- (a) specifying conditions to be met before any room or area may be designated under subsection (1),
 - (b) requiring the keeping of records of designations, and
 - (c) about the circumstances in which a designation is to cease to have effect.'.

Tudalen 7, ar ôl llinell 20, mewnosoder adran newydd –

[] Mangreoedd di-DMN: dynodi mangreoedd yn Rhan 2 o Atodlen [yr Atodlen sy'n cael ei mewnosod gan welliant 221]

- (1) Caiff y person a chanddo ofal am fangre a restrir yn Rhan 2 o Atodlen [yr Atodlen sy'n cael ei mewnosod gan welliant 221] ddynodi unrhyw ystafell neu ardal yn y fangre yn ystafell neu'n ardal lle y mae defnyddio dyfais mewnanadlu nicotin i gael ei ganiatáu, ac i'r graddau hynny mae'r fangre i gael ei thrin fel pe na bai'n ddi-DMN at ddibenion y Bennod hon.



- (2) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth –
- (a) sy'n pennu amodau sydd i gael eu bodloni cyn y caniateir i unrhyw ystafell neu ardal gael ei dynodi o dan is-adran (1),
 - (b) sy'n ei gwneud yn ofynnol cadw cofnodion o ddynodiadau, ac
 - (c) ynghylch yr amgylchiadau y mae dynodiad i beidio â chael effaith odanynt.'

Mark Drakeford

156

Page 7, after line 18, insert a new section –

'NID-free vehicles

[] Vehicles used for public transport and school transport

- (1) A vehicle in Wales that is being used for public transport or for school transport is NID-free for the purposes of this Chapter.
- (2) A vehicle is being used for public transport for the purpose of this section if –
 - (a) it is a tram or train that is being used for the transport of members of the public, or
 - (b) it is being used in the provision of a local service.
- (3) In subsection (2)(b) "local service" has the meaning given by section 2 of the Transport Act 1985 (c.67) (provision of local services by public service vehicles).
- (4) A vehicle is being used for school transport for the purpose of this section if –
 - (a) it is being used for the purposes of travel arrangements made by a local authority under section 3, 4 or 6 of the Learner Travel (Wales) Measure 2008 (nawm 2) or regulations made under section 7 or 8 of that Measure (travel to and from places where learners receive education and training), or
 - (b) it is being used for the purposes of arrangements made by the proprietor of a school to enable children to travel to and from the school, to attend school trips or other activities or events connected with the school.
- (5) In subsection (4) –
 - "proprietor" (*"perchennog"*) has the meaning given by section 579(1) of the Education Act 1996 (c.56);
 - "vehicle" (*"cerbyd"*) does not include an aircraft nor does it include a ship or hovercraft within subsection (6).
- (6) A ship or hovercraft is within this subsection if regulations could be made in relation to it under section 85 of the Merchant Shipping Act 1995 (c.21), including that section as applied by any Order in Council under section 1(1)(h) of the Hovercraft Act 1968 (c.59).
- (7) Regulations may provide for a vehicle, or a specified description of vehicle, that would otherwise be a NID-free vehicle by virtue of subsection (1) to be treated as not being a NID-free vehicle for the purposes of this Chapter.
- (8) The regulations may provide, in relation to any vehicle or description of vehicle specified in the regulations, that it is to be treated as not being a NID-free vehicle –



- (a) in specified circumstances,
 - (b) at specified times,
 - (c) in specified areas, or
 - (d) if specified conditions are satisfied,
- or any combination of these.’.

Tudalen 7, ar ôl llinell 20, mewnosoder adran newydd –

‘Cerbydau di-DMN

[] Cerbydau a ddefnyddir ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus a chludeiant i’r ysgol

- (1) Mae cerbyd yng Nghymru sy’n cael ei ddefnyddio ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus neu ar gyfer cludeiant i’r ysgol yn ddi-DMN at ddibenion y Bennod hon.
- (2) Mae cerbyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus at ddiben yr adran hon –
 - (a) os yw’n dram neu’n drên sy’n cael ei ddefnyddio i gludo aelodau o’r cyhoedd, neu
 - (b) os yw’n cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaeth lleol.
- (3) Yn is-adran (2)(b), mae i “gwasanaeth lleol” yr ystyr a roddir i “local service” gan adran 2 o Ddeddf Trafndiaeth 1985 (p.67) (darparu gwasanaethau lleol gan gerbydau gwasanaeth cyhoeddus).
- (4) Mae cerbyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cludeiant i’r ysgol at ddiben yr adran hon –
 - (a) os yw’n cael ei ddefnyddio at ddibenion trefniadau teithio a wneir gan awdurdod lleol o dan adran 3, 4 neu 6 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (mccc 2) neu reoliadau a wneir o dan adran 7 neu 8 o’r Mesur hwnnw (teithio i fannau lle y mae dysgwyr yn cael addysg a hyfforddiant ac oddi yno), neu
 - (b) os yw’n cael ei ddefnyddio at ddibenion trefniadau a wneir gan berchennog ysgol i alluogi plant i deithio i’r ysgol ac oddi yno, i fynd ar dripiâu ysgol neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau neu ddiwyddiadau eraill sy’n gysylltiedig â’r ysgol.
- (5) Yn is-adran (4) –

nid yw “cerbyd” (“*vehicle*”) yn cynnwys awyren ac nid yw’n cynnwys llong na hofrenfad o fewn is-adran (6);

mae i “perchennog” yr ystyr a roddir i “proprietor” gan adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996 (p.56).
- (6) Mae llong neu hofrenfad o fewn yr is-adran hon os gellid gwneud rheoliadau mewn perthynas ag ef o dan adran 85 o Ddeddf Llongau Masnach 1995 (p.21), gan gynnwys yr adran honno fel y’i cymhwysir gan unrhyw Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 1(1)(h) o Ddeddf Hofrenfadau 1968 (p.59).
- (7) Caiff rheoliadau ddarparu i gerbyd, neu ddisgrifiad penodedig o gerbyd, a fyddai fel arall yn gerbyd di-DMN yn rhinwedd is-adran (1), gael ei drin fel pe na bai’n gerbyd di-DMN at ddibenion y Bennod hon.



- (8) Caiff y rheoliadau ddarparu, mewn perthynas ag unrhyw gerbyd neu ddisgrifiad o gerbyd a bennir yn y rheoliadau, ei fod i gael ei drin fel pe na bai'n gerbyd di-DMN –
- (a) o dan amgylchiadau penodedig,
 - (b) ar adegau penodedig,
 - (c) mewn ardaloedd penodedig, neu
 - (d) os yw amodau penodedig wedi eu bodloni,
- neu unrhyw gyfuniad o'r rhain.'.

Mark Drakeford

157

Page 7, after line 18, insert a new section –

[] Additional NID-free vehicles

- (1) Regulations may provide for a vehicle in Wales, or description of vehicle in Wales, that is not NID-free by virtue of section [section to be inserted by amendment 156] to be treated as a NID-free vehicle for the purposes of this Chapter.
- (2) The regulations may not provide for a vehicle, or description of vehicle, to be treated as a NID-free vehicle unless –
 - (a) the vehicle, or vehicles of the description concerned, are smoke-free by virtue of section 9, and
 - (b) the Welsh Ministers are satisfied that providing for the vehicle, or vehicles of that description, to be treated as NID-free is likely to contribute towards the promotion of the health of the people of Wales.
- (3) The regulations may, among other things, make provision –
 - (a) for the circumstances in which vehicles are to be treated as NID-free (including by reference to the age of any person in the vehicle);
 - (b) for vehicles to be treated as NID-free only in specified areas, or except in specified areas;
 - (c) for exemptions.
- (4) The power to make regulations under this section may not be exercised so as to provide for a ship or hovercraft within subsection (5) to be treated as a NID-free vehicle.
- (5) A ship or hovercraft is within this subsection if regulations could be made in relation to it under section 85 of the Merchant Shipping Act 1995 (c.21) including that section as applied by any Order in Council under section 1(1)(h) of the Hovercraft Act 1968 (c.59).'

Tudalen 7, ar ôl llinell 20, mewnosoder adran newydd –

[] Cerbydau di-DMN ychwanegol

- (1) Caiff rheoliadau ddarparu i gerbyd yng Nghymru, neu ddisgrifiad o gerbyd yng Nghymru, nad yw'n ddi-DMN yn rhinwedd adran [yr adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 156], gael ei drin fel cerbyd di-DMN at ddibenion y Bennod hon.



- (2) Ni chaiff y rheoliadau ddarparu i gerbyd, neu ddisgrifiad o gerbyd, gael ei drin fel cerbyd di-DMN oni bai—
 - (a) bod y cerbyd, neu'r cerbydau o'r disgrifiad o dan sylw, yn ddi-fwg yn rhinwedd adran 9, a
 - (b) bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod darparu i'r cerbyd gael ei drin fel cerbyd di-fwg, neu ddarparu i'r cerbydau o'r disgrifiad hwnnw gael eu trin fel cerbydau di-fwg, yn debygol o gyfrannu at hybu iechyd pobl Cymru.
- (3) Caiff y rheoliadau, ymhlith pethau eraill, wneud darpariaeth—
 - (a) ar gyfer yr amgylchiadau y mae cerbydau i gael eu trin fel pe baent yn ddi-DMN odanynt (gan gynnwys drwy gyfeirio at oedran unrhyw berson yn y cerbyd);
 - (b) i gerbydau gael eu trin fel pe baent yn ddi-DMN mewn ardaloedd penodedig yn unig, neu ac eithrio mewn ardaloedd penodedig;
 - (c) ar gyfer esemptiadau.
- (4) Ni chaniateir i'r pŵer i wneud rheoliadau o dan yr adran hon gael ei arfer er mwyn darparu i long neu hofrenfad o fewn is-adran (5) gael ei drin fel cerbyd di-DMN.
- (5) Mae llong neu hofrenfad o fewn yr is-adran hon os gellid gwneud rheoliadau mewn perthynas ag ef o dan adran 85 o Ddeddf Llongau Masnach 1995 (p.21) gan gynnwys yr adran honno fel y'i cymhwysir gan unrhyw Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 1(1)(h) o Ddeddf Hofrenfadau 1968 (p.59).'

Mark Drakeford

22

Section 11, page 7, after line 31, insert—

- '() Regulations under subsection (1) or (3) may include provision about the signs to be displayed in premises, areas of premises or vehicles that, by virtue of regulations under section 8(5), 9(3)(d) or 10 (exemptions), are to be treated as not being smoke-free, but that would otherwise be smoke-free under or by virtue of this Chapter.'

Adran 11, tudalen 7, ar ôl llinell 33, mewnosoder—

Adran 57, tudalen 29, llinell 32, hepgorer 'y ddau amod' a mewnosoder 'yr amodau'.

Mark Drakeford 195

Section 57, page 29, line 31, after 'met', insert 'or that those in subsection ([*subsection to be inserted by amendment 196*]) are met,'.

Adran 57, tudalen 29, llinell 32, ar ôl 'bodloni', mewnosoder 'neu fod yr amodau yn is-adran ([*yr is-adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 196*]) wedi eu bodloni,'.



Mark Drakeford

196

Section 57, page 30, after line 5, insert—

- '() The conditions are—
- (a) that the licence holder has been convicted of a relevant offence;
 - (b) that the licence was issued to the licence holder without regard having been had by the local authority to the nature of that offence, as described in section 55(2)(a), either because the local authority was unaware of the conviction, or because the conviction did not precede the issue of the licence;
 - (c) that, had the authority had regard to the nature of that offence, as described in section 55(2)(a), for the purposes of the issue of the licence, the licence would either not have been issued at all (in the case or revocation as described in subsection (1)(a)), or would not have been issued in so far as it relates to the performance of a particular procedure (in the case of revocation as described in subsection (1)(b) in respect of the performance of that procedure).'

Adran 57, tudalen 30, ar ôl llinell 5, mewnosoder—

- '() Yr amodau yw—
- (a) bod deiliad y drwydded wedi ei gollfarnu o drosedd berthnasol;
 - (b) bod y drwydded wedi ei dyroddi i ddeiliad y drwydded heb i'r awdurdod lleol roi sylw i natur y drosedd, fel y'i disgrifir yn adran 55(2)(a), naill ai oherwydd nad oedd yr awdurdod lleol yn ymwybodol o'r gollfarn, neu oherwydd na chafwyd y gollfarn cyn dyroddi'r drwydded;
 - (c) naill ai na fyddai'r drwydded, pe bai'r awdurdod wedi rhoi sylw i natur y drosedd, fel y'i disgrifir yn adran 55(2)(a), at ddibenion dyroddi'r drwydded, wedi cael ei dyroddi o gwbl (yn achos dirymu fel y'i disgrifir yn is-adran (1)(a)), neu na fyddai wedi cael ei dyroddi i'r graddau y mae'n ymwneud â rhoi triniaeth benodol (yn achos dirymu fel y'i disgrifir yn is-adran (1)(b) mewn cysylltiad â rhoi'r driniaeth honno).'

Mark Drakeford

55

Section 58, page 30, line 34, leave out 'that the premises or vehicle, once approved under section 59, comply' and insert 'compliance'.

Adran 58, tudalen 30, llinell 34, hepgorer 'bod y fangre neu'r cerbyd, unwaith y'i cymeradwyir o dan adran 59, yn cydymffurfio' a mewnosoder 'cydymffurfedd'.

Mark Drakeford

56

Section 58, page 30, line 39, leave out subsection (5) and insert—

- '() Subsections ([*second subsection to be inserted by this amendment*]) and ([*third subsection to be inserted by this amendment*]) apply in the case of an exhibition, entertainment or other event—
- (a) to which members of the public have access, and



- (b) at which a special procedure is performed by a person in the course of a business.
- (i) The person who organises the exhibition, entertainment or event is to be treated for the purposes of this section as carrying on a business in the course of which the special procedure is performed.
- (i) The premises at which the exhibition, entertainment or event is held are to be treated for the purposes of this section as being the premises at which the special procedure is performed in the course of that business.’.

Adran 58, tudalen 30, llinell 39, hepgorer is-adran (5) a mewnosoder –

- ‘(i) Mae is-adrannau ([*yr ail is-adran sy'n cael ei mewnosod gan y gwelliant hwn*]) ac ([*y drydedd is-adran sy'n cael ei mewnosod gan y gwelliant hwn*]) yn gymwys yn achos arddangosfa, adloniant neu ddigwyddiad arall –
 - (a) y mae gan aelodau o'r cyhoedd fynediad iddo, a
 - (b) lle y rhoddir triniaeth arbennig gan berson yng nghwrs busnes.
- (i) Mae'r person sy'n trefnu'r arddangosfa, yr adloniant neu'r digwyddiad i gael ei drin at ddibenion yr adran hon fel pe bai'n cynnal busnes y rhoddir y driniaeth arbennig yng nghwrs y busnes hwnnw.
- (i) Mae'r fangre lle y cynhelir yr arddangosfa, yr adloniant neu'r digwyddiad i gael ei thrin at ddibenion yr adran hon fel y fangre lle y rhoddir y driniaeth arbennig yng nghwrs y busnes.’.

Mark Drakeford

57

Section 58, page 31, line 5, leave out ‘may provide’.

Adran 58, tudalen 31, llinell 5, hepgorer ‘ddarparu’.

Mark Drakeford

58

Section 58, page 31, at the beginning of line 6, insert ‘may provide’.

Adran 58, tudalen 31, ar ddechrau llinell 6, mewnosoder ‘darparu’.

Mark Drakeford

59

Section 58, page 31, line 8, leave out ‘that subsection (5) does not apply’ and insert ‘may provide for any one or more of subsections ([*first subsection to be inserted by amendment 56*]) to ([*third subsection to be inserted by amendment 56*]) to apply with modifications, or not to apply.’.

Adran 58, tudalen 31, llinell 9, hepgorer ‘nad yw is-adran (5) yn gymwys’ a mewnosoder ‘darparu i unrhyw un neu ragor o is-adrannau ([*yr is-adran gyntaf sy'n cael ei mewnosod gan welliant 56*]) i ([*y drydedd is-adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 56*]) fod yn gymwys gydag addasiadau, neu beidio â bod yn gymwys’.



Mark Drakeford

60

Section 59, page 31, line 28, after 'area', insert 'by issuing a certificate under this section (an "approval certificate")'.

Adran 59, tudalen 31, llinell 33, ar ôl 'hwnnw', mewnosoder 'drwy ddyroddi tystysgrif o dan yr adran hon ("tystysgrif gymeradwyo")'.

Mark Drakeford

61

Section 59, page 32, line 8, after 'section', insert ', and the display of an approval certificate'.

Adran 59, tudalen 32, llinell 8, ar ôl 'hon', mewnosoder ', ac arddangos tystysgrif gymeradwyo'.

Mark Drakeford

62

Section 59, page 32, line 9, leave out –

'under this section is to have effect either –

- (a) for a period of no more than seven days, beginning with the date of approval, or
- (b) for a period of three years, beginning with the date of approval.

- (6) An approval under this section is to be subject to the mandatory approval conditions that apply in respect of the approval concerned'

And insert –

'certificate must specify a period for which, in the absence of any previous expiry under section [section to be inserted by amendment 64] or 60, the approval to which it relates is to have effect, being either –

- (a) a period of no more than seven days, beginning with the date on which the approval certificate is issued (the "approval date"), or
- (b) a period of three years, beginning with the approval date.

- () Unless it previously ceases to have effect under section [section to be inserted by amendment 64] or 60, approval under this section ceases to have effect with the expiry of that period'.

Adran 59, tudalen 32, llinell 9, hepgorer is-adrannau (5) hyd at (6) a mewnosoder –

'() Rhaid i dystysgrif gymeradwyo bennu cyfnod, os nad yw'r gymeradwyaeth wedi dod i ben yn flaenorol o dan adran [yr adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 64] neu 60, y mae'r gymeradwyaeth y mae'n ymwneud â hi i gael effaith ar ei gyfer, sef naill ai –

- (a) cyfnod nad yw'n hwy na saith niwrnod, sy'n dechrau â'r dyddiad y dyroddir y dystysgrif gymeradwyo (y "dyddiad cymeradwyo"), neu
- (b) cyfnod o dair blynedd, sy'n dechrau â'r dyddiad cymeradwyo.

- () Oni bai ei bod yn peidio â chael effaith cyn hynny o dan adran [yr adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 64] neu 60, mae cymeradwyaeth o dan yr adran hon yn peidio â chael effaith pan ddaw'r cyfnod hwnnw i ben.'



Mark Drakeford

197

Section 59, page 32, after line 21, insert –

- () Regulations making provision as described in subsection (7)(a) may include (among other things) –
- (a) provision about how a local authority is to determine the amount of a fee payable in respect of an application;
 - (b) provision about the consequences of failure to comply with a requirement to pay a fee (including provision permitting the local authority to decline to proceed with the application).’.

Adran 59, tudalen 32, ar ôl llinell 23, mewnosoder –

- () Caiff rheoliadau sy’n gwneud darpariaeth fel y’i disgrifir yn is-adran (7)(a) gynnwys (ymhlith pethau eraill) –
- (a) darpariaeth ynghylch sut y mae awdurdod lleol i ddyfarnu ar swm ffi sy’n daladwy mewn cysylltiad â chais;
 - (b) darpariaeth ynghylch canlyniadau methu â chydymffurfio â gofyniad i dalu ffi (gan gynnwys darpariaeth sy’n caniatáu i’r awdurdod lleol wrthod bwrw ymlaen â’r cais).’.

Mark Drakeford

63

Page 32, after line 31, insert a new section –

[] Approval certificates

- (1) An approval certificate must state –
- (a) the approval date;
 - (b) the special procedure in respect of which the premises or vehicle concerned are approved;
 - (c) the date with the expiry of which the approval will, unless it previously ceases to have effect under section [section to be inserted by amendment 64] or 60, expire under section 59([subsection to be inserted by amendment 62]).
- (2) In the case of approval of premises, an approval certificate must also state the address of the premises.
- (3) In the case of approval of a vehicle, an approval certificate must also –
- (a) if the vehicle has a registration number, state that number;
 - (b) if the vehicle does not have a registration number, identify the vehicle in whatever way the authority issuing the certificate considers appropriate.
- (4) Regulations may make further provision about the form and content of approval certificates.
- (5) In this section, “approval date” has the same meaning as in section 59.’.



Tudalen 32, ar ôl llinell 33, mewnosoder adran newydd –

[] Tystysgrifau cymeradwyo

- (1) Rhaid i dystysgrif gymeradwyo ddatgan –
 - (a) y dyddiad cymeradwyo;
 - (b) y driniaeth arbennig y mae'r fangre neu'r cerbyd o dan sylw wedi ei chymeradwyo neu wedi ei gymeradwyo mewn cysylltiad â hi;
 - (c) y dyddiad, pan ddaw i ben, y bydd y gymeradwyaeth, oni bai ei bod yn peidio â chael effaith cyn hynny o dan adran [yr adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 64] neu 60, yn dod i ben o dan adran 59([yr is-adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 62]).
- (2) Yn achos cymeradwyo mangre, rhaid i dystysgrif gymeradwyo hefyd ddatgan cyfeiriad y fangre.
- (3) Yn achos cymeradwyo cerbyd, rhaid i dystysgrif gymeradwyo hefyd –
 - (a) os oes gan y cerbyd rif cofrestru, ddatgan y rhif hwnnw;
 - (b) os nad oes gan y cerbyd rif cofrestru, nodi'r cerbyd ym mha ffordd bynnag y mae'r awdurdod sy'n dyroddi'r dystysgrif yn ystyried ei bod yn briodol.
- (4) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach ynghylch ffurf a chynnwys tystysgrifau cymeradwyo.
- (5) Yn yr adran hon, mae i "dyddiad cymeradwyo" yr un ystyr ag yn adran 59.'

Mark Drakeford

64

Page 32, after line 31, insert a new section –

[] Voluntary termination of approval

- (1) Where a person on whose application a local authority has approved premises or a vehicle under section 59, in respect of a special procedure, wishes the approval to cease to have effect, the person may give notice to that effect to the authority under this section.
- (2) The notice must state the date with the expiry of which approval is to cease to have effect.
- (3) Subject to any earlier expiry under section 59([subsection to be inserted by amendment 62]) or 60, the approval ceases to have effect with the expiry of the date specified in the notice.
- (4) An authority to which notice under this section is given must take reasonable steps for bringing the notice to the attention of any persons the authority thinks likely to be affected by the notice.
- (5) Regulations may make further provision about notice under this section, including (among other things) about information to be included in notice under this section.'



Tudalen 32, ar ôl llinell 33, mewnosoder adran newydd –

[1] Terfynu cymeradwyaeth yn wirfoddol

- (1) Pan fo person y mae awdurdod lleol wedi cymeradwyo mangre neu gerbyd yn unol â'i gais o dan adran 59, mewn cysylltiad â thriniaeth arbennig, yn dymuno i'r gymeradwyaeth beidio â chael effaith, caiff y person roi hysbysiad i'r perwyl hwnnw i'r awdurdod o dan yr adran hon.
- (2) Rhaid i'r hysbysiad ddatgan y dyddiad, pan ddaw i ben, y mae'r gymeradwyaeth i beidio â chael effaith.
- (3) Yn ddarostyngedig i unrhyw gymeradwyaeth sy'n dod i ben yn gynharach o dan adran 59([yr is-adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 62]) neu 60, mae'r gymeradwyaeth yn peidio â chael effaith pan ddaw'r dyddiad a bennir yn yr hysbysiad i ben.
- (4) Rhaid i awdurdod y rhoddir hysbysiad iddo o dan yr adran hon gymryd camau rhesymol i ddwyn yr hysbysiad i sylw unrhyw bersonau y mae'r awdurdod yn meddwl ei fod yn debygol o effeithio arnynt.
- (5) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach ynghylch hysbysiad o dan yr adran hon, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) ynghylch gwybodaeth sydd i'w chynnwys mewn hysbysiad o dan yr adran hon.'.

Mark Drakeford

65

Section 60, page 33, after line 12, insert –

- '(4) The revocation has effect –
- (a) from the beginning of the day following the day on which the period for bringing an appeal under Schedule 3 (as applied by subsection (3)) in respect of the revocation expires, if no appeal is brought under that Schedule within that period;
 - (b) with the date of the withdrawal of any appeal or further appeal brought in respect of the revocation, or the date of final determination of any unsuccessful appeal or further appeal brought in respect of the revocation, where the appeal or further appeal has been brought under Schedule 3 (as applied by subsection (3)) and no further appeal under that Schedule is available;
 - (c) with the expiry of the period for bringing a further appeal under Schedule 3, where an appeal brought under Schedule 3 (as applied by subsection (3)) in respect of the revocation is withdrawn or unsuccessful, and a further appeal under Schedule 3 is available but is not brought within that period.'

Adran 60, tudalen 33, ar ôl llinell 12, mewnosoder –

- '(4) Mae'r dirymiad yn cael effaith –
- (a) o ddechrau'r diwrnod sy'n dilyn y diwrnod pan ddaw'r cyfnod ar gyfer dwyn apêl o dan Atodlen 3 (fel y'i cymhwysir gan is-adran (3)) mewn cysylltiad â'r dirymiad i ben, os na chaiff apêl ei dwyn o dan yr Atodlen honno o fewn y cyfnod hwnnw;



- (b) â'r dyddiad y tynnir yn ôl unrhyw apêl neu apêl bellach a gaiff ei dwyn mewn cysylltiad â'r dirymiad, neu ddyddiad dyfarniad terfynol ar unrhyw apêl neu apêl bellach aflwyddiannus a gaiff ei dwyn mewn cysylltiad â'r dirymiad, pan fo'r apêl neu'r apêl bellach wedi ei dwyn o dan Atodlen 3 (fel y'i cymhwysir gan is-adran (3)) a phan na fo apêl bellach ar gael o dan yr Atodlen honno;
- (c) pan ddaw'r cyfnod ar gyfer dwyn apêl bellach o dan Atodlen 3 i ben, pan fo apêl a gaiff ei dwyn o dan Atodlen 3 (fel y'i cymhwysir gan is-adran (3)) mewn cysylltiad â'r dirymiad wedi ei thynnu'n ôl neu'n aflwyddiannus, ac mae apêl bellach o dan Atodlen 3 ar gael ond ni chaiff ei dwyn o fewn y cyfnod hwnnw.'.

Mark Drakeford

66

Page 33, after line 12, insert a new section –

[] Revocation of approval: notification requirements

- (1) A local authority that gives notice under one of the provisions specified in subsection (2) to a person in respect of a revocation, or a proposed revocation, of approval under section 59 must take reasonable steps for bringing the notice to the attention of any persons the authority thinks likely to be affected by the notice.
- (2) The provisions are paragraph 15(3) or [*paragraph to be inserted by amendment 102*] of Schedule 3 (as applied by section 60(3)), and section 60.'.

Tudalen 33, ar ôl llinell 12, mewnosoder adran newydd –

[] Dirymu cymeradwyaeth: gofynion hysbysu

- (1) Rhaid i awdurdod lleol sy'n rhoi hysbysiad o dan un o'r darpariaethau a bennir yn is-adran (2) i berson mewn cysylltiad â dirymiad, neu ddirymiad arfaethedig, o gymeradwyaeth o dan adran 59 gymryd camau rhesymol i ddwyn yr hysbysiad i sylw unrhyw bersonau y mae'r awdurdod yn meddwl ei fod yn debygol o effeithio arnynt.
- (2) Y darpariaethau yw paragraff 15(3) neu [*y paragraff sy'n cael ei fewnosod gan welliant 102*] o Atodlen 3 (fel y'i cymhwysir gan adran 60(3)), ac adran 60.'.

Mark Drakeford

67

Section 61, page 33, line 17, leave out 'expired' and insert 'ceased to have effect'.

Adran 61, tudalen 33, llinell 18, hepgorer 'dod i ben' a mewnosoder 'peidio â chael effaith'.



Mark Drakeford

198

Page 34, after line 19, insert a new section –

'Fees

[] Fees

- (1) A local authority that has issued a special procedure licence may charge the licence holder a fee, either periodically or otherwise, for so long as the licence continues to have effect.
- (2) A local authority that has approved premises or a vehicle under section 59 may charge the person on whose application the approval was granted a fee, either periodically or otherwise, for so long as the approval continues to have effect.
- (3) The amount of a fee charged by a local authority under this section is to be determined by the authority, having regard to the costs incurred or expected to be incurred by the authority in connection with this Part.
- (4) Regulations may make provision about the way in which (subject to subsection (3)) a local authority is to determine the amount of the fee.
- (5) Regulations may make other provision in respect of fees charged under this section, including (among other things) in connection with –
 - (a) the way in which a fee is to be paid;
 - (b) repayment of a fee (or a proportion of it) in cases of overpayment;
 - (c) recovery of a fee due to an authority and unpaid.'

Tudalen 34, ar ôl llinell 20, mewnosoder adran newydd –

'Ffioedd

[] Ffioedd

- (1) Caiff awdurdod lleol sydd wedi dyroddi trwydded triniaeth arbennig godi ffi ar ddeiliad y drwydded, naill ai'n gyfnodol neu fel arall, am gyhyd ag y mae'r drwydded yn parhau i gael effaith.
- (2) Caiff awdurdod lleol sydd wedi cymeradwyo mangre neu gerbyd o dan adran 59 godi ffi ar y person y rhoddwyd y gymeradwyaeth i'w gais, naill ai'n gyfnodol neu fel arall, am gyhyd ag y mae'r gymeradwyaeth yn parhau i gael effaith.
- (3) Yr awdurdod sydd i ddyfarnu ar swm ffi a godir gan awdurdod lleol o dan yr adran hon, gan roi sylw i'r costau y mae'r awdurdod yn mynd iddynt neu y disgwylir i'r awdurdod fynd iddynt mewn cysylltiad â'r Rhan hon.
- (4) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y ffordd y mae awdurdod lleol (yn ddarostyngedig i is-adran (3)) i ddyfarnu ar swm y ffi.
- (5) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth arall mewn cysylltiad â ffioedd a godir o dan yr adran hon, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) mewn cysylltiad –
 - (a) â'r ffordd y mae ffi i gael ei thalu;



- (b) ag ad-dalu ffi (neu gyfran ohoni) mewn achosion o or-dalu;
- (c) ag adennill ffi sy'n ddyledus i awdurdod ac nad yw wedi ei thalu.'

Mark Drakeford 68

Section 62, page 34, line 34, after 'P', insert 'anywhere in Wales'.

Adran 62, tudalen 34, llinell 35, ar ôl 'sylw', mewnosoder 'yn unrhyw le yng Nghymru'.

Mark Drakeford 69

Section 62, page 34, line 38, after 'performance', insert 'anywhere in Wales'.

Adran 62, tudalen 34, llinell 38, ar ôl 'rhoi', mewnosoder 'yn unrhyw le yng Nghymru'.

Mark Drakeford 70

Section 62, page 35, line 1, leave out subsection (5).

Adran 62, tudalen 35, llinell 1, hepgorer is-adran (5).

Mark Drakeford 71

Section 63, page 35, line 10, leave out 'of the matters in subsection (2)' and insert 'that the licence holder is in breach of an applicable mandatory licensing condition'.

Adran 63, tudalen 35, llinell 10, hepgorer 'o ran y materion yn is-adran (2)' a mewnosoder 'bod deiliad y drwydded yn torri amod trwyddedu mandadol cymwys'.

Mark Drakeford 72

Section 63, page 35, line 12, leave out subsection (2).

Adran 63, tudalen 35, llinell 12, hepgorer is-adran (2).

Mark Drakeford 73

Section 63, page 35, line 30, leave out 'A' and insert 'If the authority is satisfied that the breach of the condition presents, or could present, significant risk of harm to human health, the'.

Adran 63, tudalen 35, llinell 29, hepgorer 'Caiff' a mewnosoder 'Os yw'r awdurdod wedi ei fodloni bod torri'r amod yn peri risg sylweddol, neu y gallai beri risg sylweddol, o niwed i iechyd dynol, caiff yr'.

Mark Drakeford 74

Section 64, page 36, line 28, leave out 'A' at the first place where it appears and insert 'If the authority is satisfied that the breach of the requirement presents, or could present, significant risk of harm to human health, the'.



Adran 64, tudalen 36, llinell 29, hepgorer 'Caiff' a mewnosoder 'Os yw'r awdurdod wedi ei fodloni bod torri'r gofyniad yn peri risg sylweddol, neu y gallai beri risg sylweddol, o niwed i iechyd dynol, caiff yr'.

Mark Drakeford

75

Section 64, page 37, after line 5, insert—

- '(9) If a premises remedial action notice given to a person prohibits the performance of a special procedure as described in subsection (5), the authority by which it was given must take reasonable steps for bringing the notice to the attention of any persons the authority thinks likely to be affected by the notice.'

Adran 64, tudalen 37, ar ôl llinell 6, mewnosoder—

- '(9) Os yw hysbysiad camau adfer ar gyfer mangre a roddir i berson yn gwahardd rhoi triniaeth arbennig fel y'i disgrifir yn is-adran (5), rhaid i'r awdurdod a'i rhoddodd gymryd camau rhesymol i ddwyn yr hysbysiad i sylw unrhyw bersonau y mae'r awdurdod yn meddwl ei fod yn debygol o effeithio arnynt.'

Mark Drakeford

76

Section 65, page 37, after line 21, insert—

- '(7) A local authority that gives a certificate or notice under this section must take reasonable steps for bringing the certificate or notice to the attention of any persons the authority thinks likely to be affected by it.'

Adran 65, tudalen 37, ar ôl llinell 22, mewnosoder—

- '(7) Rhaid i awdurdod lleol sy'n rhoi tystysgrif neu hysbysiad o dan yr adran hon gymryd camau rhesymol i ddwyn y dystysgrif neu'r hysbysiad i sylw unrhyw bersonau y mae'r awdurdod yn meddwl ei fod yn debygol o effeithio arnynt.'

Darren Millar

115

Page 38, after line 19, insert a new section—

[] Performing special procedure on intoxicated persons

- (1) An individual who performs a special procedure on someone else in the course of a business commits an offence if the individual knowingly performs the special procedure on someone whose awareness is impaired by intoxication.
- (2) A person guilty of an offence under this section is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.
- (3) It is a defence for a person charged with an offence under this section to show that the person took reasonable precautions and exercised due diligence to avoid committing the offence.
- (4) In this section, "intoxication" means any intoxication, whether caused by drink, drugs, psychoactive substances or other means, or by a combination of means.'



Tudalen 38, ar ôl llinell 19, mewnosoder adran newydd –

[] Rhoi triniaeth arbennig i bersonau meddw

- (1) Mae unigolyn sy'n rhoi triniaeth arbennig i berson arall yng nghwrs busnes yn cyflawni trosedd os yw'r unigolyn yn rhoi'r driniaeth arbennig, gan wybod ei fod yn gwneud hynny, i rywun y mae meddwdod yn amharu ar ei ymwybyddiaeth.
- (2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.
- (3) Mae'n amddiffyniad i berson sydd wedi ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon ddangos i'r person gymryd rhagofalon rhesymol ac arfer diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r drosedd.
- (4) Yn yr adran hon, ystyr "meddwdod" yw unrhyw feddwdod, ni waeth ai diodydd, cyffuriau, sylweddau seicoweithredol neu fodd arall neu gyfuniad o foddau sy'n gyfrifol am hyn'.

Mark Drakeford

77

Section 67, page 38, line 27, after 'who', insert ', without reasonable cause,'.

Adran 67, tudalen 38, llinell 26, hepgorer 'sy'n' a mewnosoder 'sydd, heb achos rhesymol, yn'.

Mark Drakeford

78

Section 67, page 38, line 28, after 'who', insert ', without reasonable cause,'.

Adran 67, tudalen 38, llinell 27, hepgorer 'sy'n' a mewnosoder 'sydd, heb achos rhesymol, yn'.

Mark Drakeford

79

Section 67, page 38, line 29, after 'who', insert ', without reasonable cause,'.

Adran 67, tudalen 38, llinell 28, hepgorer 'sy'n' a mewnosoder 'sydd, heb achos rhesymol, yn'.

Mark Drakeford

80

Section 67, page 38, line 31, after 'who', insert ', without reasonable cause,'.

Adran 67, tudalen 38, llinell 30, hepgorer 'sy'n' a mewnosoder 'sydd, heb achos rhesymol, yn'.

Mark Drakeford

199

Section 67, page 39, line 2, leave out 'not exceeding level 3 on the standard scale'.

Adran 67, tudalen 39, llinell 2, hepgorer 'nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol'.



Mark Drakeford

200

Section 68, page 39, line 5, leave out '75' and insert '[section to be inserted by amendment 203]'.
Adran 68, tudalen 39, llinell 5, hepgorer '75' a mewnosoder '[yr adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 203]'.

Mark Drakeford

81

Section 73, page 41, line 21, leave out 'possession of anything' and insert 'anything away from the premises'.
Adran 73, tudalen 41, llinell 24, hepgorer 'meddiant o unrhyw beth' a mewnosoder 'unrhywbeth o'r fangre'.

Mark Drakeford

201

Section 73, page 41, line 23, after 'it', insert –

' and

- () identifying the person to whom a request for the return of the property may be made'.

Adran 73, tudalen 41, llinell 27, ar ôl 'ohono', mewnosoder –

' a

- () sy'n nodi'r person y caniateir gofyn iddo i'r eiddo gael ei ddychwelyd'.

Mark Drakeford

202

Page 42, after line 19, insert a new section –

[] Retained property: appeals

- (1) A person ("P") with an interest in anything taken away under section 73(1)(c) by an authorised officer of a local authority ("retained property") may apply by way of complaint to any magistrates' court for an order requiring it to be released, either to P or another person.
- (2) If on an application under this section the court is satisfied that the continued retention of the retained property is not necessary for the purpose of the exercise of the authority's functions under or by virtue of this Part, it may make an order requiring the release of the retained property.
- (3) An order under this section may contain whatever provision the court thinks appropriate for delaying its coming into force pending the making and determination of an appeal (including an application under section 111 of the Magistrates' Courts Act 1980 (c.43)).
- (4) If the court adjourns the hearing of an application under this section, it may make an order in respect of the retained property that lasts until the final hearing of the application or until further order, if it considers it appropriate to do so.



- (5) Nothing in this section affects any other power of the court to make an order in respect of the retained property, including any power to make an order under section 1 of the Police (Property) Act 1897.

Tudalen 42, ar ôl llinell 22, mewnosoder adran newydd –

[] Eiddo a gedwir: apelau

- (1) Caiff person (“P”) a chanddo fuddiant mewn unrhyw beth yr eir ymaith ag ef o dan adran 73(1)(c) gan swyddog awdurdodedig i awdurdod lleol (“eiddo a gedwir”) wneud cais drwy gwyn i unrhyw lys ynadon am orchymyn sy’n ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei ryddhau, naill ai i P neu i berson arall.
- (2) Os yw’r llys, ar gais o dan yr adran hon, wedi ei fodloni nad yw’n angenrheidiol parhau i gadw’r eiddo a gedwir at ddiben arfer swyddogaethau’r awdurdod o dan y Rhan hon neu yn rhinwedd y Rhan hon, caiff wneud gorchymyn sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r eiddo a gedwir gael ei ryddhau.
- (3) Caiff gorchymyn o dan yr adran hon gynnwys pa ddarpariaeth bynnag y mae’r llys yn meddwl ei bod yn briodol er mwyn gohirio ei ddwyn i rym wrth aros i apêl (gan gynnwys cais o dan adran 111 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (p.43)) gael ei gwneud a dyfarnu arni.
- (4) Os yw’r llys yn gohirio gwrandawriad cais o dan yr adran hon, caiff wneud gorchymyn mewn cysylltiad â’r eiddo a gedwir sy’n para tan wrandawriad terfynol y cais neu hyd nes y gwneir gorchymyn pellach, os yw’n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.
- (5) Nid oes dim byd yn yr adran hon sy’n effeithio ar unrhyw bŵer arall sydd gan y llys i wneud gorchymyn mewn cysylltiad â’r eiddo a gedwir, gan gynnwys unrhyw bŵer i wneud gorchymyn o dan adran 1 o Ddeddf yr Heddlu (Eiddo) 1897.

Mark Drakeford

203

Page 42, after line 19, insert a new section –

[] Appropriated property: compensation

- (1) A person (“P”) with an interest in anything of which an authorised officer of a local authority has taken possession under section 73(1)(c) (“appropriated property”) may apply by way of complaint to any magistrates’ court for compensation.
- (2) Subsection (3) applies if on an application under this section the court is satisfied that –
 - (a) P has suffered loss or damage in consequence of the authorised officer’s taking possession of the appropriated property, or retaining it, in circumstances where doing so was not necessary for the purpose of the exercise of the local authority’s functions under or by virtue of this Part, and
 - (b) the loss or damage is not attributable to the neglect or default of P.
- (3) The court may order the local authority to pay compensation to P.



Tudalen 42, ar ôl llinell 22, mewnosoder adran newydd –

[1] Eiddo a gyfeddir: digolledu

- (1) Caiff person (“P”) a chanddo fuddiant mewn unrhyw beth y mae swyddog awdurdodedig i awdurdod lleol wedi cymryd meddiant ohono o dan adran 73(1)(c) (“eiddo a gyfeddir”) wneud cais drwy gŵyn i unrhyw lys ynadon i gael ei ddigolledu.
- (2) Mae is-adran (3) yn gymwys os yw’r llys, ar gais o dan yr adran hon, wedi ei fodloni –
 - (a) bod P wedi dioddef colled neu ddifrod oherwydd bod y swyddog awdurdodedig wedi cymryd meddiant o’r eiddo a gyfeddir, neu ei gadw, o dan amgylchiadau pan nad oedd yn angenrheidiol gwneud hynny at ddiben arfer swyddogaethau’r awdurdod lleol o dan y Rhan hon neu yn rhinwedd y Rhan hon, a
 - (b) na ellir priodoli’r golled neu’r difrod i esgeulustod neu ddiffyg P.
- (3) Caiff y llys orchymyn i’r awdurdod lleol ddigolledu P.’.

Mark Drakeford

204

Section 76, page 43, after line 2, insert –

- ‘(4) Before making regulations under this section, the Welsh Ministers must –
- (a) consider whether there are persons who appear to be representative of the interests of those likely to be affected by the regulations (“representative persons”), and
 - (b) carry out consultation with any representative persons whom the Welsh Ministers consider it appropriate to consult.’.

Adran 76, tudalen 43, ar ôl llinell 1, mewnosoder –

- ‘(4) Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru –
- (a) ystyried a oes personau yr ymddengys eu bod yn cynrychioli buddiannau’r rheini y mae’r rheoliadau yn debygol o effeithio arnynt (“personau cynrychiadol”), a
 - (b) cynnal ymgynghoriad ag unrhyw bersonau cynrychiadol y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.’.

Darren Millar

123

Section 77, page 43, leave out lines 6 to 8.

Adran 77, tudalen 43, hepgorer llinellau 5 hyd at 7.



Mark Drakeford

82

Section 77, page 43, after line 10, insert –

“approval certificate” (“*tystysgrif gymeradwyo*”) has the meaning given in section 59;’.

Adran 77, tudalen 44, ar ôl llinell 1, mewnosoder –

‘mae i “tystysgrif gymeradwyo” (“*approval certificate*”) yr ystyr a roddir yn adran 59.’.

Mark Drakeford

83

Section 77, page 43, line 14, leave out –

‘another object, to be attached to the individual’s body, or

(b) jewellery, or another object of a description prescribed in or under regulations, to be implanted in’

And insert –

‘() an object of a description prescribed in or under regulations, to be attached to, implanted in, or removed from’.

Adran 77, tudalen 43, llinell 37, hepgorer –

‘wrthrych arall, gael ei atodi i gorff yr unigolyn, neu

(b) i emwaith, neu wrthrych arall o ddisgrifiad a ragnodir mewn rheoliadau neu o dan reoliadau, gael ei fewnblannu yng nghorff’

A mewnosoder –

‘() i wrthrych o ddisgrifiad a ragnodir mewn rheoliadau neu o dan reoliadau, gael ei atodi i gorff yr unigolyn, ei fewnblannu yng nghorff yr unigolyn neu ei dynnu o gorff’.

Darren Millar

124

Section 77, page 43, after line 16, insert –

“branding” (“*brandio*”) means the semi-permanent or permanent marking, by burning, of the skin of an individual for aesthetic purposes;’.

Adran 77, tudalen 43, ar ôl llinell 11, mewnosoder –

‘ystyr “brandio” (“*branding*”) yw marcio croen unigolyn yn barhaol neu’n lled-barhaol drwy ei losgi, a hynny at ddibenion esthetig;’.



Mark Drakeford

84

Section 77, page 43, line 26, leave out '(but does not include a vehicle or other moveable structure' and insert 'or moveable facility (but does not include a vehicle'.

Adran 77, tudalen 43, llinell 23, hepgorer '(ond nid yw'n cynnwys cerbyd neu strwythur symudol arall' a mewnosoder 'neu gyfleuster symudol (ond nid yw'n cynnwys cerbyd'.

Mark Drakeford

205

Section 77, page 43, after line 27, insert –

“relevant offence” (“trosedd berthnasol”) means an offence listed in section 55(3);’.

Adran 77, tudalen 43, ar ôl llinell 31, mewnosoder –

‘ystyr “trosedd berthnasol” (“relevant offence”) yw trosedd a restrir yn adran 55(3);’.

Darren Millar

125

Section 77, page 43, after line 27, insert –

“scarification” (“creithio”) means the semi-permanent or permanent scarring, by scratching, of the skin of an individual for aesthetic purposes;’.

Adran 77, tudalen 43, ar ôl llinell 18, mewnosoder –

‘ystyr “creithio” (“scarification”) yw creithio croen unigolyn yn barhaol neu’n lled-barhaol drwy ei grafu, a hynny at ddibenion esthetig;’.

Darren Millar

126

Section 77, page 43, after line 30, insert –

“stretching” (“ymestyn”) means the semi-permanent or permanent stretching of an individual’s body piercing, with a view to enabling –

- (a) jewellery, or another object, to be attached to the individual’s body, or
- (b) jewellery, or another object of a description prescribed in or under regulations, to be implanted in the individual’s body;’.

Adran 77, tudalen 44, ar ôl llinell 1, mewnosoder –

‘ystyr “ymestyn” (“stretching”) yw ymestyn trydylliad yng nghroen unigolyn yn barhaol neu’n lled-barhaol, gyda golwg ar alluogi –

- (a) i emwaith, neu wrthrych arall, gael ei atodi i gorff yr unigolyn, neu
- (b) i emwaith, neu wrthrych arall o ddisgrifiad a ragnodir mewn rheoliadau neu o dan reoliadau, gael ei fewnblannu yng nghorff yr unigolyn.’.



Darren Millar

127

Section 77, page 43, after line 30, insert –

“sub-dermal implantation” (“*mewnblannu o dan y croen*”) means the semi-permanent or permanent implantation of material beneath the skin of an individual for aesthetic purposes;’.

Adran 77, tudalen 43, ar ôl llinell 25, mewnosoder –

‘ystyr “*mewnblannu o dan y croen*” (“sub-dermal implantation”) yw mewnblannu deunydd o dan groen unigolyn yn barhaol neu’n lled-barhaol, a hynny at ddibenion esthetig;’.

Mark Drakeford

85

Section 77, page 43, line 32, after ‘skin’, insert ‘, or mucous membrane,’.

Adran 77, tudalen 43, llinell 28, ar ôl ‘nggroen’, mewnosoder ‘, neu ym mhilen fwcaidd,’.

Darren Millar

132

Section 77, page 43, after line 34, insert –

“tongue splitting” (“*hollti’r tafod*”) means splitting part of an individual’s tongue into two or more parts for aesthetic purposes;’.

Adran 77, tudalen 43, ar ôl llinell 22, mewnosoder –

‘ystyr “*hollti’r tafod*” (“*tongue splitting*”) yw hollti rhan o dafod unigolyn yn ddwy ran neu ragor at ddibenion estheteg;’.

Mark Drakeford

86

Section 77, page 44, line 4, leave out –

‘subsection (1), “jewellery” includes (among other things) a bead, bar, rod or plug of any shape or material’

And insert –

‘the definition of “body piercing” in subsection (1) the reference to perforating an individual’s skin or mucous membrane includes a reference to breaching the integrity of the skin or mucous membrane in any way, including (among other things) by way of puncture or incision.

- () Regulations under subsection (1) may prescribe an object or description of object by reference to (among other things) the part of the body on which the perforation is performed’.



Adran 77, tudalen 44, llinell 2, hepgorer –

'is-adran (1), mae "gemwaith" yn cynnwys (ymhlith pethau eraill) glain, bar, rhoden neu blwg o unrhyw siâp neu ddeunydd'

A mewnosoder –

'y diffiniad o "tyllu'r corff" yn is-adran (1), mae'r cyfeiriad at wneud trydylliad yng nghroen neu ym mhilen fwcaidd unigolyn yn cynnwys cyfeiriad at wneud bwllch yng nghyfanrwydd y croen neu'r bilen fwcaidd mewn unrhyw ffordd, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) drwy bric neu endoriad.

- () Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) ragnodi gwrthrych neu ddisgrifiad o wrthrych drwy gyfeirio at (ymhlith pethau eraill) y rhan o'r corff y mae'r trydylliad yn cael ei roi ynddi'.

Mark Drakeford

222

Schedule 3, page 62, after line 22, insert –

- '(3) That fee (if any) is to be set by the authority having regard to the costs incurred or expected to be incurred by the authority in connection with dealing with applications.'

Atodlen 3, tudalen 62, ar ôl llinell 25, mewnosoder –

- '(3) Yr awdurdod sydd i osod y ffi honno (os oes un) gan roi sylw i'r costau y mae'r awdurdod yn mynd iddynt neu y disgwylir i'r awdurdod fynd iddynt mewn cysylltiad â delio â cheisiadau.'

Mark Drakeford

223

Schedule 3, page 63, line 6, after 'may', insert 'make provision about the way in which a local authority is to determine the amount of the fee that is to accompany an application made to it';

Atodlen 3, tudalen 63, llinell 6, ar ôl 'rheoliadau', mewnosoder 'gwneud darpariaeth ynghylch y ffordd y mae awdurdod lleol i ddyfarnu ar swm y ffi sydd i ddod gyda chais a wneir iddo';

Mark Drakeford

100

Schedule 3, page 63, line 6, leave out 'the procedure for dealing with applications' and insert 'applications (including among other things about the way in which an application is to be made, the information to be provided, and the way in which an application is to be dealt with by an authority)';

Atodlen 3, tudalen 63, llinell 6, hepgorer 'y weithdrefn ar gyfer delio â cheisiadau' a mewnosoder 'ceisiadau (gan gynnwys ymhlith pethau eraill ynghylch y ffordd y mae chais i gael ei wneud, yr wybodaeth sydd i gael ei darparu, a'r ffordd y mae awdurdod i ddelio â chais)';

Mark Drakeford

101

Schedule 3, page 66, line 32, leave out ', 57 or 60' and insert 'or 57'.

Atodlen 3, tudalen 66, llinell 35, hepgorer ', 57 neu 60' a mewnosoder 'neu 57'.



Mark Drakeford

102

Schedule 3, page 67, after line 2, insert –

'[] If, having complied with the requirements of paragraph 15, a local authority decides not to take the action set out in the warning notice, the authority must give notice of the decision to A.'

Atodlen 3, tudalen 67, ar ôl llinell 2, mewnosoder –

'[] Os yw awdurdod lleol, ar ôl cydymffurfio â gofynion paragraff 15, yn penderfynu peidio â chymryd y camau a nodir yn yr hysbysiad rhybuddio, rhaid i'r awdurdod roi hysbysiad o'r penderfyniad i A.'

Mark Drakeford

103

Schedule 3, page 68, after line 27, insert –

'Consequential amendments

21 (1) The Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1982 (c.30) is amended as follows.

(2) In section 13(11) (meaning of "local authority" in Part 8), in paragraph (a) after "district" insert "in England".

(3) In section 14 –

(a) in subsection (1) after "any area" insert "in England", and

(b) in subsection (2) after "any area" insert "in England".

(4) In section 15 –

(a) in subsection (1) after "any area" insert "in England", and

(b) in subsection (2) after "any area" insert "in England".

22 In the Local Government Byelaws (Wales) Act 2012 (anaw 2), in each table in Schedule 1 (byelaw making powers) omit the entry relating to –

(a) section 14 of the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1982 (c.30);

(b) section 15 of the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1982 (c.30).'

Atodlen 3, tudalen 68, ar ôl llinell 31, mewnosoder –

'Diwygiadau canlyniadol

21 (1) Mae Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 (p.30) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 13(11) (ystyr "local authority" yn Rhan 8), ym mharagraff (a) ar ôl "district" mewnosoder "in England".

(3) Yn adran 14 –

(a) yn is-adran (1) ar ôl "any area" mewnosoder "in England", a

(b) yn is-adran (2) ar ôl "any area" mewnosoder "in England".

(4) Yn adran 15 –



- (a) yn is-adran (1) ar ôl "any area" mewnosoder "in England", a
 - (b) yn is-adran (2) ar ôl "any area" mewnosoder "in England".
- 22 Yn Neddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 (dccc 2), ym mhob tabl yn Atodlen 1 (pwerau i wneud is-ddeddfau) hepgorer y cofnod sy'n ymwneud –
- (a) ag adran 14 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 (p.30);
 - (b) ag adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 (p.30)'. .

Mark Drakeford

87

Section 78, page 45, line 4, leave out 'not exceeding level 4 on the standard scale'.

Adran 78, tudalen 45, llinell 4, hepgorer 'nad yw'n uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol'.

Mark Drakeford

206

Section 78, page 45, after line 4, insert –

- '() Where a person ("the accused") is charged with an offence under this section by reason of the accused's own conduct (and otherwise than by virtue of the application of section 44 of the Magistrates' Courts Act 1980 (c.43) (aiders and abettors)) it is a defence for the accused to show –
 - (a) that the accused believed that the person on whom the piercing referred to in subsection (1)(a) was performed, or in respect of whom the arrangements referred to in subsection (1)(b) were made, was aged 16 or over, and
 - (b) either –
 - (i) that the accused had taken reasonable steps to establish the age of that person, or
 - (ii) that nobody could reasonably have suspected from that person's appearance that the person was under the age of 16.
- () For the purposes of subsection ([*the first subsection to be inserted by this amendment*])(b)(i), the accused (in the case of an offence under subsection (1)(a)) is treated as having taken reasonable steps to establish the age of another person if –
 - (a) the accused asked that person for evidence of that person's age, and
 - (b) the evidence would have convinced a reasonable person.'

Adran 78, tudalen 45, ar ôl llinell 4, mewnosoder –

- '() Pan fo person ("y cyhuddedig") wedi ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon oherwydd ymddygiad y cyhuddedig ei hun (ac eithrio yn rhinwedd cymhwyso adran 44 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (p.43) (helpwyr ac anogwyr)) mae'n amddiffyniad i'r cyhuddedig ddangos –
 - (a) bod y cyhuddedig yn credu bod y person y rhoddwyd y twll y cyfeirir ato yn is-adran (1)(a) iddo, neu y gwnaed y trefniadau y cyfeirir atynt yn is-adran (1)(b) mewn cysylltiad ag ef, yn 16 oed neu'n hŷn, a
 - (b) naill ai –



- (i) bod y cyhuddedig wedi cymryd camau rhesymol i gadarnhau oedran y person hwnnw, neu
 - (ii) na allai neb fod wedi amau'n rhesymol o olwg y person hwnnw fod y person o dan 16 oed.
- () At ddibenion is-adran ([yr is-adran gyntaf sy'n cael ei mewnosod gan y gwelliant hwn])(b)(i), mae'r cyhuddedig (yn achos trosedd o dan is-adran (1)(a)) i gael ei drin fel pe bai wedi cymryd camau rhesymol i gadarnhau oedran person arall –
- (a) os gofynnodd y cyhuddedig i'r person hwnnw am dystiolaeth o oedran y person hwnnw, a
 - (b) pe bai'r dystiolaeth wedi argyhoeddi person rhesymol'.

Mark Drakeford

207

Section 78, page 45, line 5, leave out 'It is a defence for a person charged with an offence under this section to show that the person' and insert 'Where a person is charged with an offence under this section by reason of the act or default of another person, or by virtue of the application of section 44 of the Magistrates' Courts Act 1980 (c.43) (aiders and abettors), it is a defence to show that the accused'.

Adran 78, tudalen 45, llinell 5, hepgorer 'Mae'n amddiffyniad i berson sydd wedi ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon ddangos i'r person' a mewnosoder 'Pan fo person wedi ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon oherwydd gweithred neu ddiffyg person arall, neu yn rhinwedd cymhwyso adran 44 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (p.43) (helpwyr ac anogwyr), mae'n amddiffyniad dangos i'r person a gyhuddwyd'.

Mark Drakeford

88

Section 78, page 45, line 8, leave out subsection (4).

Adran 78, tudalen 45, llinell 8, hepgorer is-adran (4).

Mark Drakeford

89

Section 79, page 45, line 11, leave out –

'the perforation of the skin or mucous membrane of an intimate body part listed in subsection (2), where performed otherwise than in the course of a medical procedure, and with a view to enabling –

- (a) jewellery, or another object, to be attached to the body part, or
- (b) jewellery, or another object of a description prescribed in or under regulations under section 77(1) (definition of body piercing), to be implanted in the body part'

And insert –

'a body piercing performed on an intimate body part listed in subsection (2), where performed otherwise than in the course of a medical procedure'.



Adran 79, tudalen 45, llinell 11, hepgorer –

‘trydyllu croen neu bilen fwcaidd rhan bersonol o’r corff a restrir yn is-adran (2), pan fo’n cael ei roi ac eithrio yng nghwrs triniaeth feddygol, a chyda golwg ar alluogi—

- (a) i emwaith, neu wrthrych arall, gael ei atodi i’r rhan o’r corff, neu
- (b) i emwaith, neu wrthrych arall o ddisgrifiad a ragnodir mewn rheoliadau neu o dan reoliadau o dan adran 77(1) (diffinio tyllu’r corff), gael ei fewnblannu yn y rhan o’r corff’

A mewnosoder –

‘tyllu’r corff mewn rhan bersonol a restrir yn is-adran (2), pan fo’n cael ei roi ac eithrio yng nghwrs triniaeth feddygol’.

Mark Drakeford

90

Section 79, page 45, after line 25, insert –

‘() tongue;’.

Adran 79, tudalen 45, ar ôl llinell 26, mewnosoder –

‘() y tafod;’.

Mark Drakeford

91

Section 79, page 45, after line 26, insert –

‘() In this section “body piercing” is to be read in accordance with section 77.’.

Adran 79, tudalen 45, ar ôl llinell 27, mewnosoder –

‘() Yn yr adran hon, mae “tyllu’r corff” i gael ei ddarllen yn unol ag adran 77.’.

Mark Drakeford

92

Section 79, page 45, line 33, leave out subsection (4).

Adran 79, tudalen 45, llinell 34, hepgorer is-adran (4).

Mark Drakeford

93

Section 86, page 48, line 17, leave out ‘possession of anything’ and insert ‘anything away from the premises’.

Adran 86, tudalen 48, llinell 20, hepgorer ‘meddiant o unrhyw beth’ a mewnosoder ‘unrhywbeth o’r fangre’.



Mark Drakeford

208

Section 86, page 48, line 20, after 'it', insert –

, and

- () identifying the person to whom a request for the return of the property may be made'.

Adran 86, tudalen 48, llinell 22, ar ôl 'ohono', mewnosoder –

, a

- () sy'n nodi'r person y caniateir gofyn iddo i'r eiddo gael ei ddychwelyd'.

